

Gofynwch am:

Ffôn:

E-Bost:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

1 Tachwedd 2021

Annwyl Rieni / Gwarcheidiaid / Staff Ysgol

Wrth i ysgolion ddychwelyd ar ôl yr egwyl hanner tymor, bu newidiadau i'r canllawiau ar hunan-ynysu pan fydd gan rywun yn eich cartref symptomau coronafirws neu wedi profi'n positif am coronafirws. Mae'r canllawiau newydd fel a ganlyn:

Wedi'ch brechu'n llawn neu rhwng 5 ac 17 oed

Os ydy rhywun yn eich cartref â symptomau neu wedi profi'n positif a chithau wedi'ch brechu'n llawn neu rhwng 5 ac 17 oed, dylech hunanynysu a chymryd prawf PCR. Os yw'r prawf yn negatif, cewch stopio hunanynysu.

Heb eich brechu'n llawn

Os yw rhywun yn eich cartref wedi profi'n positif a chithau heb eich brechu'n llawn, dylech hunanynysu am 10 diwrnod. Dylech gymryd prawf PCR ar ddiwrnod 2 ac 8. A dylech hunanynysu am 10 diwrnod hyd yn oed os yw eich profion PCR yn negatif.

Plant o dan 5

Nid oes rhaid i blant o dan 5 oed hunanynysu na chymryd prawf os ydynt wedi dod i gysylltiad ag achos positif yn eu cartref neu rywle arall.

Os oes gennych chi unrhyw rai o symptomau'r coronafeirws (tymheredd uchel, peswch cyson newydd, colli blas neu arogl – neu newid yn y synhwyrau hynny), dylech hunanynysu gartref a chael prawf. Ni ddylech fynd i feddygfa, fferyllfa nac ysbyty. Mae hunanynysu yn berthnasol i oedolion a phlant o bob oed. Mae hunanynysu yn golygu nad ydych chi'n gadael y tŷ. Dylech hunanynysu ar unwaith os oes gennych chi symptomau a pharhau i hunanynysu hyd nes y cewch ganlyniad prawf PCR COVID-19.

Mae hwn yn newid i ganllawiau blaenorol, lle gallai brodyr a chwiorydd achosion cadarnhaol fod yn yr ysgol o hyd. O hyn ymlaen, bydd angen canlyniad prawf PCR negyddol ar ddisgyblion a staff cyn y gallant ddychwelyd i'r ysgol os oes achos o Covid yn y cartref.

Mae ein hysgolion yn parhau i weithio'n ddiflino i sicrhau bod addysg ein plant a'n pobl ifanc yn cael cyn lleied o aflonyddwch â phosib a bydd yr uchod yn ein cefnogi ni i gyd i

geisio cael hanner tymor mor normal ag y gallwn yn y cyfnod cyn y Nadolig. Rydym yn diolch i chi i gyd, fel bob amser, am gefnogi'ch ysgolion gyda hyn.

Mae'r lefel rhybu genedlaethol yn aros yn SERO am y 3 wythnos nesaf ac ar hyn o bryd mae lefel y risg ym Mae Abertawe yn cyfateb i'r sgôr "Uchel" ar ein fframwaith ysgolion. Adolygir y sgôr hon yn rheolaidd.

Diolch i chi, fel bob amser, am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir



Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg